O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 11 (Cy. 4)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Llanelen i System Gylchu Hardwick, y Fenni, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed	*10 Ionawr 2013*
Yn dod i rym	*21 Ionawr 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd - Amwythig (yr A4042) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn**(2).**

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Ionawr 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Llanelen i System Gylchu Hardwick, y Fenni, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys, neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 21 Ionawr 2013 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o gefnffordd yr